Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3)-20-09)

SLC312

Adroddiad Drafft y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Teitl: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc) (Cymru) (Diwygio) 2009

Gweithdrefn: **Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004"). Effaith y diwygio yw ychwanegu at yr amgylchiadau lle y gellir archebu'r cyffur Oseltamivir (Tamiflu) ar gyfer cleifion wrth ddarparu gwasanaethau meddygol o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol. Yr amgylchiadau ychwanegol yw afiechyd pandemig sy'n peri risg difrifol, neu risg difrifol posibl i iechyd pobl ac mae cyflenwi'r cyffur yn unol â'r protocol yn ymwneud â'r afiechyd hwnnw.

Gwnaed y Rheoliadau ar 9 Gorffennaf 2009 a daethant i rym ar 10 Gorffennaf 2009. Trwy lythyr dyddiedig 10 Gorffennaf 2009 hysbysodd y Cwnsler Cyffredinol y Llywydd y bu'n angenrheidiol torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn sicrhau y gallai Meddygon Teulu roi presgripsiynau am gyffuriau gwrth-feirysol fel Tamiflu yn unol â chyfrifoldebau cytundebol y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a hynny heb effeithio ar fynediad at driniaeth i unigolion sydd â symtomau o'r afiechyd trwy fferyllfa gymunedol ar bresgripsiwn.

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar y sail a ganlyn:

Nid yw'r Rheoliadau wedi'u gwneud yn Gymraeg a Saesneg [Rheol Sefydlog 15.2(vii)].
Yn ei lythyr at y Llywydd dywed y Cwnsler Cyffredinol:
"Oherwydd yr angen i gyflwyno'r rheoliadau hyn ar unwaith mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus yn barnu nad yw'n rhesymol ymarferol eu bod yn cael eu gwneud yn ddwyieithog o fewn y terfyn amser gofynnol".
O gofio byrder eithafol y Rheoliadau* sy'n cynnwys diwygio testun nad oedd angen ei gyfieithu (gwnaed Rheoliadau 2004 yn Saesneg yn unig gan eu bod yn rhan o gyfres o reoliadau a wnaed i hwyluso cyflwyno'r Contract Meddygon Teulu yn 2004), efallai y bydd Aelodau am ystyried ymhellach y datganiad hwn.
*Mae'r Rheoliadau (yn cynnwys y Nodyn Esboniadol) yn gyfanswm o tua 548 o eiriau a'r testun diwygiedig nad oes angen ei gyfieithu yn gyfanswm o 129 gair felly mae 419 gair i'w cyfieithu. O'r cyfieithiad sydd ei angen mae'r teitl, sy'n ymddangos deirgwaith ond sydd angen ei gyfieithu un waith yn unig yn 15 gair.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
Gorffennaf 2009

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:

Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol o'r ffaith bod y Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol, o dan amgylchiadau pan na fo deddfwriaeth wedi ei gwneud yn Gymraeg a Saesneg neu pan na fwriedir ei gwneud felly, i'r Pwyllgor Deddfwriaeth adrodd y dylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i hynny.

Yr oedd yn ofynnol i'r newidiadau yr oedd y Rheoliadau hyn wedi'u gwneud i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) 2004 gael eu gwneud ar fyrder i hwyluso rhan o ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r ffliw pandemig cyfredol ac nid oedd yn bosibl llunio fersiwn ddwyieithog o fewn y terfyn amser gofynnol.